



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1992 (Cy. 302)

2015 No. 1992 (W. 302)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Gorchymyn Defaid a Geifr
(Cofnodion, Adnabod a Symud)
(Cymru) 2015**

**The Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement)
(Wales) Order 2015**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3364 (Cy. 296)) ("Gorchymyn 2009"). Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi, yng Nghymru, Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004 (sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid defeidiog a gafraidd ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 a Chyfarwyddebau 92/102/EEC a 64/432/EEC).

This Order revokes and replaces the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/3364 (W. 296)) ("the 2009 Order"). It makes provision for the administration and enforcement in Wales of Council Regulation (EC) No. 21/2004 (establishing a system for the identification and registration of ovine and caprine animals and amending Regulation (EC) No.1782/2003 and Directives 92/102/EEC and 64/432/EEC).

Mae Rhan 2 yn darparu bod rhaid i'r dyfeisiau adnabod a ddefnyddir er mwyn cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn fod o fath a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, ac yn nodi rhai darpariaethau cyffredinol o ran gosod dyfeisiau adnabod.

Part 2 provides that identification devices used to comply with this Order must be of a type approved by the Welsh Ministers and sets out some general provisions in relation to the application of identification devices.

Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer moddion adnabod defaid a geifr, gan gynnwys gofyniad i osod tag clust electronig er mwyn adnabod defaid y bwriedir eu cigyddu cyn eu bod yn 12 mis oed. Os gosodwyd tag clust anelectronig cyn 1 Ionawr 2016 ar ddefaid y bwriedid eu cigyddu cyn cyrraedd 12 mis oed, ni fydd rhaid newid y tag hwnnw am un electronig tan 30 Mehefin 2017.

Part 3 provides for the means of identification of sheep and goats, including the requirement that a sheep intended for slaughter before the age of 12 months must be identified with an electronic eartag. If sheep intended for slaughter before the age of 12 months were identified before 1 January 2016 with a non-electronic eartag then this need not be replaced with an electronic eartag until 30 June 2017.

Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tynnu neu amnewid marciau adnabod ar anifeiliaid a adnabuwyd o dan Ran 3.

Part 4 makes provision for the removal or replacement of identification marks on animals identified under Part 3.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaethau ar gyfer adnabod geifr nas adnabuwyd o dan Ran 3.

Part 5 makes provision for the identification of goats not identified under Part 3.

Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaethau ar gyfer amnewid marciau adnabod ar bob anifail a adnabuwyd cyn 1 Ionawr 2016 ac ar eifr a adnabuwyd yn unol â Rhan 5.

Part 6 makes provision for the replacement of identification marks on all animals identified before 1 January 2016 and on goats identified in accordance with Part 5.

Mae Rhan 7 yn darparu ar gyfer cadw cofrestr daliad gyfoes gan bob ceidwad, ac yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi yn y gofrestr a pha bryd.

Mae Rhan 8 yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithredwyr pwynt cofnodi canolog yn adrodd yn electronig am symudiadau anifeiliaid, ac yn caniatáu i geidwaid eraill wneud hynny.

Mae Rhan 9 yn nodi'r gofyniad bod ceidwaid yn cadw stocrestr flynyddol ac yn cyflenwi gwybodaeth am eu daliad i Weinidogion Cymru, a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny.

Mae Rhan 10 yn darparu ar gyfer dyrannu rhifau lot i anifeiliaid mewn marchnad ac yn gwahardd prynu neu werthu anifeiliaid oni phrynrir neu werthir yr holl anifeiliaid sydd yn y lot. Mae'n esemptio marchnadoedd a lladd-dai o'r angen i ailadnabod anifeiliaid sydd a'u nodau adnabod yn eisiau, ac yn darparu ar gyfer cytuno ar drefniadau i ganiatáu i bwyntiau cofnodi canolog beidio â chofnodi'n electronig os yw'r pŵer neu'r offer yn methu.

Mae Rhan 11 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gofynion adnabod anifeiliaid a ddygir i mewn i Gymru o Aelod-wladwriaethau eraill, rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a thrydydd gwledydd.

Mae Rhan 12 yn cynnwys darpariaethau amrywiol a darpariaethau gorfodi gan gynnwys y gofynion ynghylch anifeiliaid sydd i'w hallforio. Mae erthygl 37 yn nodi amddiffyniad rhag cyhuddiad o fethu ag adnabod anifail yn gywir mewn achos o driniaeth filfeddygol frys. Mae erthygl 38 yn rhoi nifer o bwerau i arolygwyr ac mae erthygl 39 yn galluogi arolygwyr i wahardd symud diadell o ddefaid neu eifre o eifr i ddaliad neu allan ohono. Mae erthyglau 40 a 41 yn ymwneud â darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ac addasu marciau adnabod. Mae erthygl 42 yn ymwneud â throseddau gan gyrff corfforaethol, ac erthygl 43 yn ymwneud â throseddau gan bartneriaethau a chymdeithasau anghorfforedig. Gorfodir y Gorchymyn gan awdurdod lleol neu, os cyfarwyddir felly, gan Weinidogion Cymru (erthygl 44).

O dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 mae torri'r Gorchymyn yn drosedd, y gellir ei chosbi yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd Aseidiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi gan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Part 7 makes provision for every keeper to keep an up-to-date holding register, setting out the information which must be entered in the register and when.

Part 8 requires operators of central points of recording to report movements of animals electronically and allows other keepers to do so.

Part 9 sets out the requirement for keepers to keep an annual inventory and supply information to the Welsh Ministers about their holding and the time limits for doing so.

Part 10 provides for the allocation of lot numbers to animals at a market and prohibits the buying or selling of animals unless all animals from a lot are bought or sold. It exempts markets and slaughterhouses from the need to re-identify animals with missing identification marks, and provides for arrangements to be agreed to allow central points of recording not to record electronically in the event of a power or equipment failure.

Part 11 makes provision for the identification requirements of animals brought into Wales from other member States, other parts of the United Kingdom, the Crown Dependencies and from third countries.

Part 12 contains miscellaneous and enforcement provisions including the requirements relating to animals which are to be exported. Article 37 sets out a defence to the failure to identify an animal correctly in the case of emergency veterinary treatment. Article 38 confers various powers on inspectors and article 39 enables inspectors to prohibit the movement of a flock of sheep or a herd of goats to or from a holding. Articles 40 and 41 relate to the provision of false or misleading information and the alteration of identification marks. Article 42 relates to offences committed by bodies corporate and article 43 relates to offences committed by partnerships and unincorporated associations. The Order is enforced by the local authority or the Welsh Ministers if so directed (article 44).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2015 Rhif 1992 (Cy. 302)

2015 No. 1992 (W. 302)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

**Gorchymyn Defaid a Geifr
(Cofnodion, Adnabod a Symud)
(Cymru) 2015**

**The Sheep and Goats (Records,
Identification and Movement)
(Wales) Order 2015**

Gwnaed 8 Rhagfyr 2015

Made 8 December 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 11 Rhagfyr 2015

Laid before the National Assembly for Wales
11 December 2015

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(3)

*Coming into force in accordance with article
1(3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 1, 8(1), ac 83(2) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1), and 83(2) of the Animal Health Act 1981(1).

RHAN 1

PART 1

Rhagymadrodd

Introduction

Enwi, cymhwyso a chychwyn

Title, application and commencement

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

1.—(1) The title of this Order is the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ionawr 2016 ac eithrio Rhan 8 a ddaw i rym ar 18 Ionawr 2016.

(3) This Order comes into force on 1 January 2016 except for Part 8 which comes into force on 18 January 2016.

Dehongli

Interpretation

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

2.—(1) In this Order—

Ystyr "Aelod-wladwriaeth" ("*member State*") yw un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

"animal" ("*anifail*") means any animal of the ovine or caprine species;

(1) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau o dan y Ddeddf yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru) yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044); ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(1) 1981 c. 22. Functions under the Act are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales) by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044); and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

ystyr “allforio” (“*export*”) yw anfon i Aelod-wladwriaeth arall neu i drydedd wlad;

ystyr “anifail” (“*animal*”) yw unrhyw anifail o’r rhywogaethau defediog neu afraidd;

ystyr “annarllenadwy” (“*illegible*”), mewn perthynas â dyfais adnabod electronig, yw annarllenadwy naill ai’n electronig neu’n weledol;

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw person a benodwyd yn arolygydd at ddibenion y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod lleol;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) mewn perthynas ag ardal yw’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr “canolfan gasglu” (“*collection centre*”) yw mangre a ddefnyddir fel derbynfa dros dro ar gyfer anifeiliaid y bwriedir eu symud i rywle arall (ond nid yw’n cynnwys marchnad neu le arall a ddefnyddir ar gyfer gwerthu neu farchnata anifeiliaid onid oes bwriad i gigydda’r holl anifeiliaid sydd yno ar unwaith);

ystyr “canolfan grynhoi” (“*assembly centre*”) yw unrhyw ddaliad lle mae defaid neu eifr sy’n tarddu o wahanol ddaliadau yn cael eu dwyn ynghyd i ffurfio llwythi o anifeiliaid y bwriedir eu hallforio, neu unrhyw ddaliad a ddefnyddir yng nghwrs allforio;

mae i “ceidwad” yr ystyr a roddir i “keeper” yn Erthygl 2 o Reoliad y Cyngor;

ystyr “cod adnabod” (“*identification code*”) yw’r cod a nodir ar fodd adnabod yn unol â’r gofynion o dan y Gorchymyn hwn neu o dan y Gorchymynion blaenorol;

ystyr “cofrestr” (“*register*”) yw’r gofrestr sy’n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad y Cyngor;

ystyr “Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC” (“*Council Directive 92/102/EEC*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC ynglŷn ag adnabod a chofrestru anifeiliaid(1);

mae i “daliad” yr ystyr a roddir i “holding” yn Erthygl 2 o Reoliad y Cyngor;

ystyr “dogfen symud” (“*movement document*”) yw’r ddogfen symud sy’n ofynnol gan Erthygl 6 o Reoliad y Cyngor;

ystyr “dull adnabod” (“*method of identification*”) yw tag clust, tag egwyd neu datw a osodir mewn Aelod-wladwriaeth arall neu drydedd wlad;

“assembly centre” (“*canolfan grynhoi*”) means any holding at which sheep or goats originating from different holdings are grouped together to form consignments of animals intended for export or which is used in the course of export;

“central point of recording” (“*pwytyn cofnodi canolog*”) means a holding approved by the Welsh Ministers under Section C.2 of the Annex to the Council Regulation for recording the identities of animals arriving at that holding;

“collection centre” (“*canolfan gasglu*”) means premises used for the intermediate reception of animals intended to be moved elsewhere (but does not include a market or other place used for the sale or trading of animals unless all the animals there are intended for immediate slaughter);

“Council Directive 92/102/EEC” (“*Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC*”) means Council Directive 92/102/EEC on the identification and registration of animals(1);

“the Council Regulation” (“*Rheoliad y Cyngor*”) means Council Regulation (EC) No. 21/2004 establishing a system for the identification and registration of ovine and caprine animals and amending Regulation (EC) No. 1782/2003 and Directives 92/102/EEC and 64/432/EEC(2) as amended from time to time;

“export” (“*allforio*”) means sending to another member State or a third country;

“flockmark” (“*nod diadell*”) means the number allocated by the Welsh Ministers in respect of a flock of sheep on a holding;

“holding” (“*daliad*”) has the meaning given in Article 2 of the Council Regulation;

“identification code” (“*cod adnabod*”) means the code set out on a means of identification as required under this Order or under the previous Orders;

“identification device” (“*dyfais adnabod*”) means an eartag, electronic eartag, pastern tag, electronic pastern tag or bolus;

“identification mark” (“*marc adnabod*”) means a method of identification applied in another member State, a means of identification or an older means of identification;

“illegible” (“*annarllenadwy*”) means, in relation to an electronic identification device, unreadable either electronically or visually;

(1) OJ Rhif L 355, 5.12.92, t. 32 a ddiddymwyd gan Gyfarwyddeb 2008/71/EC. Bydd yr anifeiliaid hynaf yn parhau i gael eu hadnabod yn unol â’r Gorchymyn hwn.

(1) OJ No L 355, 5.12.92, p. 32 repealed by Directive 2008/71/EC. Older animals will still be identified in accordance with this Order.
(2) OJ No L 5, 9.1.04, p. 8.

ystyr “dyfais adnabod” (“*identification device*”) yw tag clust, tag clust electronig, tag egwyd, tag egwyd electronig neu folws;

ystyr “y Gorchmynion blaenorol” (“*the previous Orders*”) yw—

- (a) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009(1);
- (b) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008(2);
- (c) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006(3);
- (d) Gorchmynyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(4);
- (e) Gorchmynyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(5);
- (f) Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(6);
- (g) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Lloegr) 2009(7);
- (h) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Lloegr) 2007(8);
- (i) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Lloegr) 2005(9);
- (j) Gorchmynyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Lloegr) (Rhif 2) 2002(10);
- (k) Gorchmynyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Lloegr) 2002(11);
- (l) Gorchmynyn Adnabod Defaid a Geifr (Lloegr) 2000(12);
- (m) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Gogledd Iwerddon) 2009(13);
- (n) Gorchmynyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Gogledd Iwerddon) 2005(14);

-
- (1) O.S. 2009/3364 (Cy. 296).
 - (2) O.S. 2008/130 (Cy. 17).
 - (3) O.S. 2006/1036 (Cy. 106), a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/2926 (Cy. 261).
 - (4) O.S. 2002/2302 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/167 (Cy. 27), O.S. 2003/946 (Cy. 127) ac O.S. 2003/1966 (Cy. 211).
 - (5) O.S. 2002/1357 (Cy. 133).
 - (6) O.S. 2002/274 (Cy. 30), a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/811 (Cy. 91).
 - (7) O.S. 2009/3219, a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/331.
 - (8) O.S. 2007/3493.
 - (9) O.S. 2005/3100, a ddiwygiwyd gan O.S. 2006/2987.
 - (10) O.S. 2002/2153, a ddiwygiwyd gan O.S. 2003/29, 2003/502 a 2003/1728.
 - (11) O.S. 2002/240, a ddiwygiwyd gan O.S. 2002/764 a 2002/1349.
 - (12) O.S. 2000/2027, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/281.
 - (13) Rh.St. (GI) 2009/411.
 - (14) Rh.St. (GI) 2005/535, a ddiwygiwyd gan Rh.St. (GI) 2006/508.

“inspector” (“*arolygydd*”) means a person appointed to be an inspector for the purposes of this Order by the Welsh Ministers or a local authority;

“keeper” (“*ceidwad*”) has the meaning given in Article 2 of the Council Regulation;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

“market” (“*marchnad*”) means a market place, sale yard or any other premises or place to which animals are brought from any other place to be exposed for sale and includes any place, lairage or parking area adjoining a market and used in connection with it;

“market operator” (“*gweithredwr marchnad*”) means a person responsible for managing the reception or the sale of animals in a market or a duly authorised representative of such a person;

“means of identification” (“*modd adnabod*”) means an identification device or a tattoo;

“member State” (“*Aelod-wladwriaeth*”) means a member State of the European Union;

“method of identification” (“*dull adnabod*”) means an eartag, pastern tag or tattoo applied in another member State or third country;

“movement document” (“*dogfen symud*”) means the movement document required by Article 6 of the Council Regulation;

“the previous Orders” (“*y Gorchmynion blaenorol*”) means—

- (a) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2009(1);
- (b) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2008(2);
- (c) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006(3);
- (d) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002(4);
- (e) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002(5);

-
- (1) S.I. 2009/3364 (W. 296).
 - (2) S.I. 2008/130 (W. 17).
 - (3) S.I. 2006/1036 (W. 106), amended by S.I. 2006/2926 (W. 261).
 - (4) S.I. 2002/2302 (W. 227), amended by S.I. 2003/167 (W. 27), S.I. 2003/946 (W. 127) and S.I. 2003/1966 (W. 211).
 - (5) S.I. 2002/1357 (W. 133).

- (o) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Gogledd Iwerddon) 2004(1);
- (p) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Gogledd Iwerddon) 1997(2);
- (q) Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofrestru, Adnabod a Symud) (Yr Alban) 2009(3);
- (r) Rheoliadau Defaid a Geifr (Adnabod ac Orlheinadwyedd) (Yr Alban) 2006(4);
- (s) Gorchymyn Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Yr Alban) 2002(5);
- (t) Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Yr Alban) 2000(6);

ystyr “gweithredwr lladd-dy” (“*slaughterhouse operator*”) yw person sy'n rhedeg busnes lladd-dy neu gynrychiolydd i berson o'r fath a awdurdodwyd yn briodol;

ystyr “gweithredwr marchnad” (“*market operator*”) yw person sy'n gyfrifol am reoli derbyn neu werthu anifeiliaid mewn marchnad neu gynrychiolydd i berson o'r fath a awdurdodwyd yn briodol;

ystyr “marc adnabod” (“*identification mark*”) yw dull adnabod a osodwyd mewn Aelod-wladwriaeth arall, modd adnabod neu fodd adnabod hŷn;

ystyr “marchnad” (“*market*”) yw marchnadfa, iard arwerthu neu unrhyw fangre neu le arall y dygir anifeiliaid iddi neu iddo o unrhyw le arall i'w dangos ar gyfer eu gwerthu, ac mae'n cynnwys unrhyw le, gwalfa neu faes parcio cyfagos i farchnad, a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r farchnad;

ystyr “modd adnabod” (“*means of identification*”) yw dyfais adnabod neu datŵ;

ystyr “nod diadell” (“*flockmark*”) yw'r rhif a ddyrannwyd gan Weinidogion Cymru o ran diadell o ddefaid ar ddaliad;

ystyr “pwynt cofnodi canolog” (“*central point of recording*”) yw daliad a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan Adran C.2 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor ar gyfer cofnodi manylion adnabod anifeiliaid sy'n cyrraedd y daliad hwnnw;

ystyr “Rheoliad y Cyngor” (“*the Council Regulation*”) yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a

- (f) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Regulations 2002(1);
- (g) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (England) Order 2009(2);
- (h) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (England) Order 2007(3);
- (i) the Sheep and Goats (Registration, Identification and Movement) (England) Order 2005(4);
- (j) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (England) (No. 2) Order 2002(5);
- (k) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (England) Order 2002(6);
- (l) the Sheep and Goats Identification (England) Order 2000(7);
- (m) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) Order (Northern Ireland) 2009(8);
- (n) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) Order (Northern Ireland) 2005(9);
- (o) the Identification and Movement of Sheep and Goats Order (Northern Ireland) 2004(10);
- (p) the Identification and Movement of Sheep and Goats Order (Northern Ireland) 1997(11);
- (q) the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Scotland) Order 2009(12);
- (r) the Sheep and Goats (Identification and Traceability) (Scotland) Regulations 2006(13);
- (s) the Sheep and Goats Movement (Interim Measures) (Scotland) Order 2002(14);
- (t) the Sheep and Goats Identification (Scotland) Regulations 2000(15);

(1) Rh.St. (GI) 2004 Rhif 491.
 (2) Rh.St. (GI) 1997 Rhif 173, a ddiwygiwyd gan Rh.St. (GI) 1998 Rhif 393.
 (3) O.S.A. 2009/414.
 (4) O.S.A. 2006/73, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2006/594 ac O.S.A. 2007/559.
 (5) O.S.A. 2002/38, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2002/221.
 (6) O.S.A. 2000/418, a ddiwygiwyd gan O.S.A. 2002/531 ac O.S.A. 2002/39.

(1) S.I. 2002/274 (W. 30), amended by S.I. 2002/811 (W. 91).
 (2) S.I. 2009/3219, amended by S.I. 2014/331.
 (3) S.I. 2007/3493.
 (4) S.I. 2005/3100, amended by S.I. 2006/2987.
 (5) S.I. 2002/2153, amended by S.I. 2003/29, 2003/502 and 2003/1728.
 (6) S.I. 2002/240, amended by S.I. 2002/764 and 2002/1349.
 (7) S.I. 2000/2027, amended by S.I. 2001/281.
 (8) S.R. (NI) 2009/411.
 (9) S.R. (NI) 2005/535, amended by S.R. (NI) 2006/508.
 (10) S.R. (NI) 2004 No.491.
 (11) S.R. (NI) 1997 No.173, amended by S.R. (NI) 1998 No.393.
 (12) S.S.I. 2009/414.
 (13) S.S.I. 2006/73, amended by S.S.I. 2006/594 and S.S.I. 2007/559.
 (14) S.S.I. 2002/38, amended by S.S.I. 2002/221.
 (15) S.S.I. 2000/418, amended by S.S.I. 2002/531 and S.S.I. 2002/39.

chofrestru defaid a geifr ac sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 a Chyfarwyddebau 92/102/EEC a 64/432/EEC(1) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr “rhif unigryw” (“*unique number*”) yw rhif sy'n unigryw i anifail mewn diadell neu eifre ac nad yw'n cynnwys mwy na 6 digid.

(2) Mae i ymadroddion nas diffinnir ym mharagraff (1) a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn ac y defnyddir yr ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn Rheoliad y Cyngor yr un ystyron yn y Gorchymyn hwn ag sydd i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn y Rheoliad hwnnw.

Awdurdod cymwys

3. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor.

Awdurdodiadau

4. Rhaid i unrhyw awdurdodiadau neu gymeradwyaethau a ddyroddir o dan y Gorchymyn hwn neu o dan Reoliad y Cyngor fod mewn ysgrif, caniateir eu gwneud yn ddarostyngedig i amodau a chaniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu drwy hysbysiad ar unrhyw adeg.

RHAN 2

Dyfeisiau adnabod

Cymeradwyo dyfeisiau adnabod

5. Rhaid i ddyfeisiau adnabod a ddefnyddir i gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn fod o fodel a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru.

Tagiau ychwanegol a dyfeisiau adnabod sydd â gwybodaeth ychwanegol

6.—(1) Ar gais ceidwad, caiff gweithgynhyrchydd dyfeisiau adnabod, yn ddarostyngedig i erthygl 6(2), ychwanegu gwybodaeth atodol at ddyfais adnabod neu ddyfais amnewid ar yr amod—

- (a) bod yr wybodaeth atodol yn gwbl wahanol i'r cod adnabod; a
- (b) bod y cod adnabod yn parhau'n ddarllenadwy ac y gellir ei weld yn eglur bob amser.

(2) Caiff ceidwad osod tag ychwanegol ar anifail ond rhaid iddo beidio â chynnwys y llythrennau “UK” nac ychwaith ddwyn nod diadell neu nod geifre, onid awdurdodir hynny gan Weinidogion Cymru.

“register” (“*cofrestr*”) means the register required by Article 5 of the Council Regulation;

“slaughterhouse operator” (“*gweithredwr lladd-dy*”) means a person carrying on the business of a slaughterhouse or the duly authorised representative of such a person;

“unique number” (“*rhif unigryw*”) means a number that is unique to an animal in a flock or herd and contains no more than 6 digits.

(2) Expressions not defined in paragraph (1) which are used in this Order and which are also used in the Council Regulation have the same meaning in this Order as they have in that Regulation.

Competent authority

3. The Welsh Ministers are the competent authority for the purposes of the Council Regulation.

Authorisations

4. Any authorisations or approvals issued under this Order or the Council Regulation must be in writing, may be made subject to conditions, and may be amended, suspended or revoked by notice at any time.

PART 2

Identification devices

Approval of identification devices

5. Identification devices used to comply with this Order must be of a model approved by the Welsh Ministers.

Additional tags and identification devices with additional information

6.—(1) At the request of a keeper, a manufacturer of identification devices may, subject to article 6(2), add supplementary information to an identification device or replacement device provided that—

- (a) the supplementary information is distinct from the identification code; and
- (b) the identification code remains legible and clearly distinguishable at all times.

(2) A keeper may apply an additional tag to an animal but it must not contain the letters “UK” or bear a flockmark or herdmark, unless authorised by the Welsh Ministers.

(1) OJ Rhif L 5, 9.1.04, t. 8.

Lliw dyfeisiau adnabod

7.—(1) Rhaid i bob dyfais adnabod, heblaw dyfeisiau amnewid a bolysau, fod yn felyn ac ni chaiff ceidwad osod dyfais adnabod felyn nad yw'n electronig.

(2) Ni chaiff neb osod dyfais adnabod goch ar unrhyw anifail, heblaw dyfais adnabod amnewid.

(3) Pan fo ceidwad yn ailadnabod anifail ac nad yw'r anifail hwnnw ar ei ddaliad genedigol, neu pan nad yw'r ceidwad yn gwybod y daliad genedigol, rhaid iddo ddefnyddio dyfais adnabod amnewid goch ond nid yw'r gofyniad bod rhaid defnyddio dyfais adnabod goch yn gymwys i ddefnyddio bolysau.

(4) Pan adwaenir anifail drwy gyfrwng bolws ac ail ddyfais adnabod rhaid i'r ail ddyfais honno fod yn ddu ac ni chaniateir defnyddio dyfais adnabod ddu ac eithrio mewn cyfuniad â bolws.

(5) Rhaid i'r arwyddnodau ar bob dyfais adnabod fod o liw gwahanol i gefndir y ddyfais a bod yn eglur a darllenadwy bob amser pan fo'r ddyfais ynghlwm wrth anifail.

(6) Caniateir defnyddio mecanwaith o unrhyw liw i osod tagiau clust melyn, coch neu ddu.

Dinistrio dyfeisiau adnabod

8.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy, iard gelanedd, cynel helgwn neu safle rendro, ac unrhyw berson arall sy'n gwaredu'n derfynol garcas anifail a adnabuwyd, ddinistrio pob dyfais adnabod sydd ar yr anifeiliaid a gigyddir neu a waredir rywfodd arall ganddynt, mewn modd diogel a fydd yn atal aildefnyddio'r dyfeisiau adnabod.

(2) Mae dinistrio diogel yn cynnwys rendro unrhyw ddyfais adnabod.

RHAN 3

Adnabod anifeiliaid

Adnabod anifeiliaid ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016

9.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i'r canlynol—

- (a) anifeiliaid a anwyd cyn 1 Ionawr 2016 na chawsant eu hadnabod cyn y dyddiad hwnnw ac sydd ar eu daliad genedigol;
- (b) defaid a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016; ac
- (c) geifr a anwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016 y mae eu ceidwaid yn dewis eu hadnabod yn electronig.

(2) Rhaid i geidwad gydymffurfio ag Erthygl 4(1) (y paragraff cyntaf), Erthygl 4(2)(a) a (b) ac Erthygl 9(3)

Colour of identification devices

7.—(1) All electronic identification devices, other than replacement devices and boluses, must be yellow and no keeper may apply a yellow identification device that is not electronic.

(2) No person may attach a red identification device to any animal, other than a replacement identification device.

(3) Where a keeper re-identifies an animal and that animal is not on its holding of birth, or the keeper does not know the holding of birth, they must use a red replacement identification device but the requirement to use a red identification device does not apply to the use of boluses.

(4) Where an animal is identified by means of a bolus and a second identification device that second device must be black and a black identification device may only be used in combination with a bolus.

(5) The characters on all identification devices must be a different colour from the background of the device and must be clearly legible at all times when the device is attached to an animal.

(6) The fixing mechanism of a yellow, red or black eartag may be of any colour.

Destruction of identification devices

8.—(1) The operator of a slaughterhouse, knackers yard, hunt kennels or rendering plant and any other person who finally disposes of an identified animal carcass must destroy in a secure manner which prevents reuse of all identification devices on animals they slaughter or otherwise dispose of.

(2) Secure destruction includes the rendering of any identification device.

PART 3

Identification of animals

Identification of animals on or after 1 January 2016

9.—(1) This article applies to—

- (a) animals born before 1 January 2016 that are not identified before that date and are on their holding of birth;
- (b) sheep born on or after 1 January 2016; and
- (c) goats born on or after 1 January 2016 whose keepers choose to identify them electronically.

(2) A keeper must comply with Article 4(1) (first paragraph), Article 4(2)(a) and (b) and Article 9(3) of

o Reoliad y Cyngor a'r erthygl hon, onid yw'r dull adnabod amgen a nodir yn erthygl 10 wedi ei awdurdodi.

(3) At ddibenion Erthygl 4(1) o Reoliad y Cyngor, y terfynau amser ar gyfer adnabod anifail yw—

- (a) 9 mis o'r dyddiad geni, yn achos anifail a gedwir o dan amodau ffermio llai dwys neu ar faes; neu
- (b) 6 mis o'r dyddiad geni, yn achos unrhyw anifail arall.

(4) Ni chaniateir i anifail gael ei adnabod drwy ddefnyddio bolws mewn cyfuniad â thatw.

(5) Rhaid i'r cod adnabod ar fodd adnabod at ddibenion Adran A.2 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor fod fel a ganlyn—

- (a) y llythrennau "UK" neu, ar ddyfais adnabod electronig, y rhifau "826"; a
- (b) rhif 12 digid a bennir gan Weinidogion Cymru;

a rhaid iddo fod yn union yr un fath ar y modd adnabod cyntaf ac ar yr ail fodd adnabod.

Adnabod anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu cigydda

10.—(1) Ar gyfer anifeiliaid y bwriedir eu cigydda cyn 12 mis oed ac na fwriedir eu hallforio, awdurdodir y dull adnabod yn Adran A.7 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor, a rhaid i'r dull adnabod hwnnw fod yn electronig yn achos defaid.

(2) Rhaid i'r cod adnabod at ddibenion Adran A.7 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor fod fel a ganlyn, sef y llythrennau "UK" ac wedyn nod y ddiadell neu nod yr eifre; ni chaniateir i unrhyw rif arall a ddyroddir gan yr awdurdod cymwys gael ei gofnodi yn weledol ar y tag clust hwn.

(3) Pan fwriedir cigydda ar ôl 12 mis oed neu allforio anifail a adnabuwyd o dan baragraff (1) rhaid i'r anifail hwnnw gael ei adnabod yn unol ag erthygl 9 a rhaid tynnu'r tag clust gwreiddiol oddi arno.

(4) Caiff ceidwad ailadnabod, o dan erthygl 9, unrhyw anifail a adnabuwyd o dan yr erthygl hon ac nid oes angen iddo gigydda'r anifail hwnnw cyn 12 mis oed ar yr amodau canlynol yn unig—

- (a) os yw'r anifail ar ei ddaliad genedigol; neu
- (b) os oes gan y ceidwad gofnod cyflawn o holl symudiadau'r anifail.

(5) Pan ailadnabyddir anifail o dan baragraff (4)(b) rhaid i'r ceidwad groesgyfeirio'r hen god adnabod a'r cod adnabod newydd yng nghofrestr y daliad.

the Council Regulation and this article unless the alternative identification method set out in article 10 is authorised.

(3) For the purpose of Article 4(1) of the Council Regulation, the time limits for identifying an animal are—

- (a) 9 months from the date of birth, in the case of an animal kept in extensive or free range farming conditions; or
- (b) 6 months from the date of birth, in the case of any other animal.

(4) No animal may be identified by the use of a bolus in combination with a tattoo.

(5) The identification code on a means of identification for the purposes of Section A.2 of the Annex to the Council Regulation must be—

- (a) the letters "UK" or, on an electronic identification device, the numbers "826"; and
- (b) a 12 digit number specified by the Welsh Ministers;

and must be identical on the first and second means of identification.

Identification of animals intended for slaughter

10.—(1) For animals intended for slaughter before the age of 12 months and not intended for export, the identification method in Section A.7 of the Annex to the Council Regulation is authorised, and that identification method must be electronic in the case of sheep.

(2) The identification code for the purposes of Section A.7 of the Annex to the Council Regulation must be the letters "UK" followed by the flockmark or herdmark; no other number issued by the competent authority may be visibly recorded on this eartag.

(3) Where it is intended to slaughter after the age of 12 months or to export an animal identified under paragraph (1) that animal must be identified in accordance with article 9 and the original eartag removed.

(4) A keeper may re-identify under article 9 an animal identified under this article and need not slaughter that animal before the age of 12 months only if—

- (a) the animal is on its holding of birth; or
- (b) the keeper has a complete record of all the animal's movements.

(5) Where an animal is re-identified under paragraph (4)(b) the keeper must cross-reference the old and new identification codes in the holding register.

(6) Caiff ceidwad ailadnabod gafr a adnabuwyd o dan baragraff (1) drwy ddefnyddio tag clust o'r math a ddisgrifir ym mharagraff (2) sy'n cynnwys dynodiad electronig.

Anifeiliaid a anwyd ac a adnabuwyd cyn 1 Ionawr 2016

